*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Polisi Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd.

## Cwmpas a Diben y Polisi

Diben y polisi hwn yw darparu gwasanaeth gwybodaeth ac arweiniad diduedd cynhwysfawr sy'n sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o gyfleoedd â phosib i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch rheoli eu dysgu gydol oes a'u datblygiad gyrfaol eu hunain bob tro y bydd cam newydd yn codi. Eu cefnogi i wneud dewisiadau gyrfa effeithiol ac i ffynnu mewn amrywiaeth o amgylcheddau gwaith. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i gynyddu eu potensial i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch, astudiaeth bellach neu symud ymlaen i addysg uwch a / neu gyflogaeth fel y bo'n briodol i bob unigolyn.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff sydd â rôl sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm o fewn y coleg.

## Datganiadau Polisi

Bydd y coleg yn cynnal ei bartneriaeth a'i berthynas â Gyrfa Cymru ac yn eu datblygu ymhellach. Caiff trefniadau ffurfiol ar gyfer gwasanaethau eu dogfennu mewn cytundebau partneriaeth a drafodir yn flynyddol gan Bennaeth y Gwasanaethau Myfyrwyr.

Bwriad rhaglen Gyrfaoedd a Phrofiad Gwaith Cysylltiedig ffurfiol y Coleg yw bodloni Safonau Cenedlaethol a darparu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y cyfleoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar gael. Nod y Coleg yw cynorthwyo dysgwyr wrth ddewis gyrfa a chyflogaeth.

Mae Arweiniad Gyrfaoedd, Cyflogadwyedd a Phrofiad Gwaith Cysylltiedig i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn ffurfio rhan o wasanaeth cefnogol 360 sydd wedi'i wreiddio o fewn y cwricwla. Mae'r Coleg yn dal Nod Ansawdd Gyrfa Cymru ar gyfer darpariaeth CWRE.

### Egwyddorion

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y polisi hwn:

Mae egwyddorion Gatsby yn rhan gynhenid o'r gwasanaeth a ddarperir gan arweiniad a chyngor gyrfaoedd, byd gwaith a phrofiad gwaith cysylltiedig ac maent yn ymgorffori wyth meincnod arfer orau.

Tra yn y coleg bydd ein dysgwyr yn datblygu'r **sgiliau** trosglwyddadwy sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

Rhaid cefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu potensial tra yn y Coleg, mewn amgylchedd lle mae eu **llesiant** yn cael ei gyflawni fel eu bod yn teimlo'n dda amdanynt eu hunain ac yn parchu eraill.

Mae ymrwymiad i ddulliau adferol yn sicrhau ein bod yn unioni niwed ac yn meithrin perthnasoedd.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddull "coleg cyfan" o ddatblygu'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w helpu i **ddatblygu** yn llwyddiannus drwy gydol eu bywydau

- Darparu amrywiaeth o fecanweithiau cymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Mae gan bob dysgwr CCAF llawn amser a rhan-amser yr hawl i gael rhaglen a gwasanaethau effeithiol yn ymwneud â gyrfaoedd a'r byd gwaith. Bydd y rhain yn ddiduedd, yn hyblyg, yn gyfredol, yn wybodus, yn gefnogol ac yn amserol a byddant yn cynnwys yr hawl i arweiniad a chymorth i ddysgwyr ar ôl y cwrs.

Trefnu lleoliadau gwaith (wedi'u dilysu gan reoliadau cyrff dyfarnu).

Sicrhau bod y Coleg yn cynnal ei achrediad Nod Gyrfa Cymru.

Bydd y coleg yn cynnal ei bartneriaeth a'i berthynas â Gyrfa Cymru ac yn eu datblygu ymhellach.

Bydd y coleg yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth yn ymwneud â gyrfaoedd, cymorth ariannol a bywyd Coleg ar adegau priodol drwy gydol y flwyddyn.

Darparu canllawiau a gwasanaethau lles i gleientiaid a all fod:
- Yn ystyried ymuno ag un o raglenni'r coleg
- Eisoes ar raglen astudio yn CCAF
- Yn cwblhau rhaglen ac yn symud ymlaen i astudio pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth

Cyflwyno'r Academi Yrfaoedd gan ddarparu cyfleuster siop un stop sydd wedi'i alinio'n strategol er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen arnynt ar gyfer dilyniant a chyflogaeth.

Datblygu gwasanaeth cynhwysfawr a chydweithredol sy'n cydweithio'n agos â thiwtoriaid y cwrs i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i bob dysgwr:

- Cynllunio gweithredu cychwynnol
- Sgrinio derbyniadau a chanllawiau cychwynnol cyn y cwrs
- Presenoldeb mewn digwyddiadau gwybodaeth, nosweithiau derbyn a nosweithiau agored
- Gwasanaethau galw heibio ac apwyntiad
- Gwaith grŵp

- Tiwtorialau grŵp
- Gweithdai a gweithgareddau rhyngweithiol
- Siaradwyr ysbrydoledig
- Atgyfeiriadau'r swyddfa gyflogaeth a chwilio am swyddi
- Ffair Gyrfaoedd
- Cynnydd a digwyddiadau camau nesaf
- Profiadau yn gysylltiedig gyda gwaith
- Cyfweliadau unigol
- Cyfweliadau ffug
- Adeiladwyr CV
- Adeiladwyr UCAS
- Ffeiriau Prifysgsol

Cyfrifoldebau

Mae'r Llywodraethwyr yn gyfrifol am:

- Gyrchu'r polisi hwn

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

Adolygu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y polisi hwn.

## Polisïau Cysylltiedig

Polisi Derbyniadau
Cynllun Addysgu a Dysgu
Polisi Tiwtorialau
Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol
Polisi Entrepreneuriaeth a Menter
Polisi Ansawdd
Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Polisi Datblygu Staff
Polisi Diogelu Data

## Gweithdrefnau Cysylltiedig

Gweithdrefn Derbyn
Gweithdrefn Addysg yn Gysylltiedig â Gwaith
Polisi Entrepreneuriaeth a Menter
Gweithdrefn Datblygu Staff
Gweithdrefn Ymweliadau Addysgol